# Trawsfynydd Site
# Closure Director's Report

## 19 June 2017

Martin Moore
Closure Director



## Site Closure Director's Summary

In the reporting period we have made very good progress in high hazard reduction on the site and also delivered an improved level of conventional safety performance. We have made good progress with the commencement of Active Commissioning of the North Fuel Element Debris (NFED) facility, Miscellaneous Sludge Vaults (MSV) have moved into routine operation, bulk asbestos removal in the reactor safestores has progressed to plan, the transfer of all remaining 1803 drums from the historic storage facilities into the Interim Storage Facility (ISF) has been completed, and we have commenced the transfer of sludge baskets from Ponds North Void.

We have achieved these major advances with an improved conventional safety performance throughout the year, which have been all the more pleasing given the increased number of high risk workfaces, and the increase in overall number or workers on the site. Given the previous year performance this improvement was necessary and welcome.

In regard to Intermediate Level Waste (ILW) hazard reduction, we have successfully delivered the NFED project into Active Commissioning, and early retrievals are progressing as planned, with the plant and operators working well. We are now looking forward to completion of Active Commissioning later this year as planned, and transition into routine operations.

Our MSV plant has maintained progress despite many challenges involved with the recovery of the historic sludges. Overall, we are anticipating completion of recoveries this year as planned.

Turning to the plant and structures programmes, we continue to make good progress on the Ponds Complex and Reactor Safestores, including our involvement as a lead site for the implementation of the Guidance on Requirements for Release from Radioactive Substances Regulation (GRR). As part of this work, the site has undertaken first stage consultation with key stakeholders in selecting a preferred end state option, and as part of this is developing the in-situ disposal option further.

The two reactor safestores are expected to be substantially locked down this year with the completion of planned bulk asbestos removal in the gas circulator halls, and with the completion of external and internal modifications to achieve an effective weather barrier.

In regard to Asset Care we have made significant changes to the number of assets and the overall configuration of these assets, notably with the removal of the Administration, Workshop and Stores Complex. These facilities occupied a significant footprint, were beyond their useful life, and contained a significant amount of hazardous material e.g., asbestos bearing materials. The decision to accelerate the demolition was straightforward and supported by the Executive.

Notable progress has also been made with the transition to revised Emergency Arrangements which we refer to as "Contingency Arrangements" in March 2017, and the site is currently undertaking work to determine whether the removal of operational shift teams would be practical. This work includes a thorough review of extant safety case requirements, shift logs, and asset care data.

There has also been a review of the security working patterns to ensure that we have sufficient resilience at all times to ensure that our security commitments are fully met.

Turning now to the organisational matters, we have implemented a Regional Engineering Manager, and this regional approach is also now being applied to programmes such as Asbestos Management where we are collaboratively using our pool of resources in Wales to support Trawsfynydd, Wylfa and Maentwrog. This regional approach is also being applied to our Staff Joint Council (SJC) where we now meet regularly as a joint SJC to discuss common issues.

Overall at Trawsfynydd we have seen a period of focused change to the overall asset footprint, the site high hazard profile being reduced significantly, along with improvements to key assets that are needed to support the forward programme of ILW recovery and preparations of Care and Maintenance.

Finally, looking forward, the year ahead will continue to deliver key milestones towards achievement of Care and Maintenance. We expect to complete the MSV recoveries, achieve lockdown of the 2 reactor safestores, back out of the Ponds Lanes and continue to define and deliver progress on the optimised end state. Above all else, we expect to continue to deliver this with a highly motived and well led workforce, delivering all of this without harm to the public, workforce or environment.

**Martin Moore**
**Trawsfynydd Closure Director**

## Site Projects: Key achievements January – May 2017

The site's skyline dramatically changed as the stores complex, associated workshops and three storey administration block were demolished.



January 2017



May 2017

1,200 tonnes of materials were removed from site in 177 waste movements as follows:
500 tonnes of steel
400 tonnes of general waste
90 tonnes of asbestos
33 tonnes of plasterboard

6,000 tonnes of concrete/brick were crushed for re-use on site.

### Reactor safestore external repairs phase 2/3

All works now complete to programme with 16 new doors, 3 new concertina doors, over 1000m2 of cladding and over 3000m$^2$ of roof waterproofing leaving the safestores weather envelope in a good stable state through to height reduction.





### Reactor safestore level 1- 5 Interim Care & Maintenance preparations

All works now complete to programme with circa 200 rooms emptied and a vast amount of legacy waste removed in the last six months. All areas above the ground floor are now locked off with access restricted to all.

### Safestore boiler ends strengthening works phase 2

Following the removal of the legacy scaffold in phase 1 of the project new compliant scaffold access structures to provide access to the boiler boxes and interspaces have been completed. Asbestos cleans have now been completed to 80% of the areas and strengthening brackets and steelwork completed to 50%. This project is on target for completing all work by the end of October.

### MAC Vaults Remediation

Works to remove legacy 'hot spots' from the MAC vault in SS1 and SS2 have now commenced. This is a six week programme that then leads on to the work required to get the vaults in to their end state for C&M.

### Haskins door canopies and East side lifts

A programme of work to remove the safestore Haskins door canopies and the East side passenger lifts is due to commence before the end of June. These canopies are to be removed due to the safety hazard posed and the lifts are to be de-planted to remove the hazard of a suspended load. The works will involve specialist demolition techniques to lift the canopies to the ground for final waste sentencing. The works are to be completed this calendar year by the contractor who has just finished the demolition of the Admin building (KDC).

### Legacy waste

Twelve ISO containers of historic low level waste have been removed from the Radiation Controlled Area.

78 tonnes of metal was decontaminated to out of scope levels and sent for recycling.

196m$^3$ of legacy waste has been disposed of to date and a further 133m$^3$ will be repackaged and shipped by early 2018.

### Higher Activity Waste Programme

ILW sludge retrievals from the Main Sludge Vaults have progressed well during the period. The vault is now 75% empty and is anticipated to complete this year.

## Visits

The site hosted visits from Moltex Energy Ltd in February and a group of 1st year Environmental Science students from Manchester University in April. In addition, a group of delegates from Dounreay Site Restoration Ltd visited in April.

## People

We continue to support our workforce during the transition towards Care & Maintenance. The workforce profile reported at the December 2016 SSG and June 2017 SSG:

| | 16 November 2016 | 1 June 2017 |
|---|---|---|
| Magnox Staff | 165 | 155 |
| Agency Supplied Workers | 80 | 51 |
| Contract Supplied Workers | 26 | 44 |
| Contractors | 119 | 148 |
| Total | 390 | 398 |

## Community

16 community organisations received a share of £56,760 Magnox socio-economic scheme funding in 2016/17.



Children from Cylch Meithrin Bala with their new play equipment and wellies
Awarded £384 funding



Fairbourne Bowling Club members with their new scarifier
Awarded £610 funding



Children creating a Geochache on a Snowdonia Slate Trail school engagement field trip
Awarded £10,000 funding



Blaenau Ffestiniog Archaeology Club members on a dig at Tai Llyn
Awarded £500 funding



Paddleboarding on a North West Wales Outdoor Partnership 'Girls Adventure' activity
Awarded £30,000 funding




Gwynedd Arloesi Community Wi-Fi Project launch at Aberdaron attended by Julie James Skills Minister
Awarded £285,000 NDA funding

**For more information and the latest news from Trawsfynydd, visit:**

https://magnoxsites.com
https://twitter.com/magnoxsites
https://www.linkedin.com/company/magnox
https://www.flickr.com/photos/magnoxsites

# Adroddiad Cyfarwyddwr Cau
# Safle Trawsfynydd

**19 Mehefin 2017**

Martin Moore
Cyfarwyddwr Cau



## Crynodeb Cyfarwyddwr Cau'r Safle

Rydym wedi gwneud cynnydd da iawn yn y cyfnod adrodd i leihau peryglon lefel uchel ar y safle yn ogystal â chyflawni lefel well o berfformiad diogelwch confensiynol. Rydym wedi gwneud cynnydd da i ddechrau ar y gwaith o Gomisiynu cyfleuster trin Gweddillion Elfennau Tanwydd yn Weithredol, mae'r Cyfleuster Slwtsh Amrywiol bellach yn weithredol, mae'r gwaith o symud asbestos swmp yn storfeydd diogel yr adweithydd yn mynd rhagddo yn ôl y bwriad, cwblhawyd y gwaith o drosglwyddo'r 1803 drwm sy'n weddill o'r cyfleusterau storio hanesyddol i'r Cyfleuster Storio Dros Dro, ac rydym wedi dechrau trosglwyddo'r basgedi slwtsh o'r Gwagle Pyllau Gogledd.

Rydym wedi cyflawni'r datblygiadau mawr hyn gyda pherfformiad diogelwch confensiynol gwell drwy'r flwyddyn, sydd wedi bod yn fwy o gyflawniad o ystyried y nifer uwch o leoliadau gwaith risg uchel a'r cynnydd yn nifer y gweithwyr ar y safle. O ystyried perfformiad y flwyddyn flaenorol, roedd y gwelliant hwn yn angenrheidiol ac i'w groesawu.

O ran lleihau peryglon Gwastraff Lefel Ganolraddol, fe wnaethom lwyddo i symud y prosiect Gweddillion Elfennau Tanwydd i'r cam Comisiynu Gweithredol, ac mae'r gwaith casglu cynnar yn mynd rhagddynt yn ôl y bwriad, gyda'r peiriannau a'r gweithredwyr yn gweithio'n dda. Rydym yn bwriadu cwblhau'r cam Comisiynu Gweithredol yn ddiweddarach eleni, fel y cynlluniwyd, a throsglwyddo i weithrediadau arferol.

Mae ein peiriant Cyfleuster Slwtsh Amrywiol wedi cynnal y cynnydd gwaith er gwaethaf nifer o heriau wrth adfer slwtsh hanesyddol. Yn gyffredinol, rydym yn disgwyl i'r gwaith adfer gael ei gwblhau eleni, yn ôl y bwriad.

Gan droi at y rhaglenni peiriannau a strwythurau, rydym yn parhau i wneud cynnydd da ar y Pyllau Diogel a Storfeydd Diogel yr Adweithydd, gan gynnwys ein gwaith fel safle arweiniol yn cyflawni'r Canllawiau ar Ryddhau o'r Rheoliadau Sylweddau Ymbelydrol (GRR). Fel rhan o'r gwaith hwn, mae'r safle wedi cynnal ymgynghoriad cam cyntaf gyda rhanddeiliaid allweddol ar gyfer dewis opsiwn dewisol cyflwr terfynol ac fel rhan o hyn mae'n datblygu'r opsiwn gwaredu ar y safle ymhellach.

Disgwylir i ddwy storfa ddiogel yr adweithydd gael eu cau i lawr yn sylweddol eleni, gyda'r gwaith arfaethedig o dynnu asbestos swmp yn y neuaddau nwy cylchol a chwblhau'r addasiadau allanol a mewnol er mwyn cyflawni rhwystr effeithiol rhag y tywydd.

O ran y Gofalu am Asedau, rydym wedi gwneud newidiadau sylweddol i nifer o asedau a chyfluniad cyffredinol yr asedau hyn, yn arbennig tynnu'r Adeilad Gweinyddu, Gweithdy a Storfeydd. Roedd y cyfleusterau hyn yn cynrychioli ôl-troed sylweddol, roeddent y tu hwnt i'w hoes ddefnyddiol ac roeddent yn cynnwys swm sylweddol o ddeunyddiau peryglus e.e. deunyddiau oedd yn cynnwys asbestos. Roedd y penderfyniad i gyflymu'r gwaith dymchwel yn syml ac wedi'i gefnogi gan y Pwyllgor Gweithredol.

Gwnaed cynnydd nodedig hefyd gyda'r trosglwyddiad i'r Trefniadau Brys diwygiedig, y cyfeiriwyd atynt fel “Trefniadau Wrth Gefn” ym mis Mawrth 2017, ac mae'r safle yn gwneud gwaith yn awr i benderfynu a fyddai tynnu timau shifft gweithredol yn ôl yn ymarferol. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys adolygiad trylwyr o ofynion achosion diogelwch presennol, cofnodion shifft a data gofalu am asedau.

Cynhaliwyd adolygiad hefyd o'r patrymau gwaith diogelwch i sicrhau bod gennym wytnwch digonol bob amser i sicrhau bod ein hymrwymiadau diogelwch yn cael eu cyflawni'n llawn.

Gan droi yn awr at faterion sefydliadol, rydym wedi cyflwyno Rheolwr Peirianneg Rhanbarthol, ac mae'r dull rhanbarthol hwn yn cael ei ddefnyddio mewn rhaglenni megis Rheoli Asbestos, lle'r ydym yn defnyddio ein cronfa o adnoddau ar y cyd yng Nghymru i gefnogi Trawsfynydd, Wylfa a Maentwrog.  Mae'r dull rhanbarthol hwn hefyd yn cael ei ddefnyddio yn ein Cydbwyllgor Staff lle'r ydym yn cwrdd yn rheolaidd yn awr fel Cydbwyllgor staff i drafod materion cyffredin.

Ar y cyfan yn Nhrawsfynydd rydym wedi profi cyfnod o newid pendant i'r ôl-troed asedau cyffredinol, gyda phroffil perygl uchel y safle wedi'i leihau'n sylweddol, ynghyd â gwelliannau i'r asedau allweddol sydd eu hangen i gefnogi'r blaen raglen o adfer Gwastraff Lefel Ganolraddol a'r paratoadau Gofal a Chynnal a Chadw.

Yn olaf, gan edrych i'r dyfodol, bydd y flwyddyn i ddod yn parhau i gyflawni cerrig milltir allweddol tuag at gyflawni Gofal a Chynnal a Chadw.  Rydym yn disgwyl cwblhau'r gwaith o adfer y Cyfleuster Slwtsh Amrywiol, cloi'r ddwy storfa ddiogel yr adweithydd, gorffen y gwaith yn y Lonydd Pyllau a pharhau i ddiffinio a chyflawni cynnydd ar gyfer y cyflwr terfynol a ddymunir.  Yn anad dim, disgwyliwn i barhau i gyflawni hyn gyda gweithlu cymwys iawn ac sy'n cael ei arwain yn dda, gan gyflawni pob rhan o hyn heb niwed i'r cyhoedd, y gweithlu na'r amgylchedd.

**Martin Moore**
**Cyfarwyddwr Cau Trawsfynydd**

## Prosiectau Safle: Cyflawniadau Allweddol Ionawr – Mai 2017

Mae nenlinell y safle wedi newid yn ddramatig wrth i adeiladau'r storfeydd, y gweithdai cysylltiedig a'r bloc gweinyddu tri llawr gael eu dymchwel.



Ionawr 2017



Mai 2017

Cafodd 1,200 tunnell o ddeunyddiau eu symud o'r safle mewn 177 o symudiadau gwastraff, fel a ganlyn:
500 tunnell o ddur
400 tunnell o wastraff cyffredinol
90 tunnell o asbestos
33 tunnell o blastrfwrdd

Cafodd 6,000 tunnell o goncrid/brics eu malu i'w hail-ddefnyddio ar y safle.

### Cam 2/3 atgyweiriadau allanol storfeydd diogel yr adweithyddion

Mae pob cam o'r gwaith wedi'u cwblhau yn awr gyda 16 o ddrysau newydd, 3 drws consertina newydd, mwy na 1000m2 o gladin a mwy na 3000$m^2$ o ddeunydd gwrth ddŵr ar y to i sicrhau bod gorchudd tywydd y storfeydd diogel mewn cyflwr cadarn drwy leihau uchder.





### Paratoadau Gofal a Chynnal a Chadw Interim lefel 1-5 Storfeydd Diogel yr Adweithyddion

Mae'r holl waith wedi'u cwblhau yn awr gyda thua 200 o ystafelloedd wedi'u gwagio a swm sylweddol o wastraff etifeddol wedi'i symud yn y chwe mis diwethaf.  Mae'r holl ardaloedd uwchlaw lefel y ddaear wedi'u cloi yn awr gyda mynediad cyfyngedig i bawb.

### Gwaith cryfhau ochrau bwyleri'r storfeydd diogel, cam 2

Ar ôl tynnu'r hen sgaffaldiau yng ngham 1 y prosiect, cwblhawyd y gwaith o osod strwythurau newydd cydsyniol i gael mynediad gyda sgaffaldiau i ddarparu mynediad i'r blychau bwyleri a'r bylchau sydd rhyngddynt.  Mae'r gwaith o glirio asbestos wedi'i gwblhau yn 80% o'r ardaloedd a chwblhawyd 50% o'r gwaith o osod bracedi cryfhau a gosod gwaith dur.  Disgwylir i'r holl waith ar y prosiect hwn gael ei gwblhau erbyn diwedd Hydref.

### Adfer y Gladdgell MAC

Mae gwaith wedi dechrau i gael gwared ar 'boethfannau' etifeddol o'r gladdgell MAC yn SS1 ac SS2. Rhaglen chwe wythnos yw hon sy'n arwain at y gwaith sydd ei angen i gyflawni cyflwr terfynol y cam Gofal a Chynnal a Chadw.

### Canopïau drysau Haskins a'r lifftiau Dwyreiniol

Disgwylir i raglen waith ddechrau i gael gwared ar ganopïau drysau Haskins y storfeydd diogel a'r lifftiau teithwyr Dwyreiniol cyn diwedd Gorffennaf.  Mae angen symud y canopïau hyn oherwydd y perygl maent yn eu creu ac mae angen eu tynnu er mwyn cael gwared ar y perygl o lwyth crog. Bydd y gwaith yn cynnwys technegau dymchwel arbenigol er mwyn codi'r canopïau i'r ddaear ar gyfer y cam gwaredu terfynol.  Disgwylir i'r contractwr gwblhau'r

gwaith hwn erbyn diwedd y flwyddyn galendr, ac mae newydd orffen dymchwel yr adeilad Gweinyddol (KDC).

## Gwastraff etifeddol

Mae deuddeg cynhwysydd ISO o wastraff lefel isel hanesyddol wedi'u symud o'r Ardal Ymbelydrol a Reolir.

Cafodd 78 tunnell o fetel ei ddadhalogi hyd yma i lefelau y tu hwnt i'r cwmpas a'u hanfon i'w hailgylchu.

Cafodd 196m$^3$ o wastraff etifeddol ei waredu hyd yma a bydd 133m$^3$ pellach yn cael ei ail-becynnu a'i gludo erbyn dechrau 2018.

## Rhaglen Wastraff Gweithgaredd Uwch

Mae'r gwaith o adfer slwtsh Gwastraff Lefel Ganolraddol o'r Brif Gladdgell Slwtsh wedi mynd rhagddo'n dda yn ystod y cyfnod. Mae'r gladdgell 75% yn wag yn awr a rhagwelir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau eleni.

## Ymweliadau

Cynhaliodd y safle ymweliadau gan Moltex Energy Ltd ym mis Chwefror a grŵp o fyfyrwyr blwyddyn 1af Gwyddor yr Amgylchedd o Brifysgol Manceinion ym mis Ebrill. Hefyd, cafwyd ymweliad gan grŵp o gynrychiolwyr o Dounreay Site Restoration Ltd ym mis Ebrill.

## Pobl

Byddwn yn parhau i gefnogi ein gweithlu wrth i ni drosglwyddo i'r cam Gofal a Chynnal a Chadw. Y niferoedd a oedd yn cael eu cyflogi a nodwyd yng nghyfarfodydd Grŵp Rhanddeiliaid y safle yn Rhagfyr 2017 a Mehefin 2017 fel a ganlyn:

| | 16 Tachwedd 2016 | 1 Mehefin 2017 |
|---|---|---|
| Staff Magnox | 165 | 155 |
| Gweithwyr Asiantaeth | 80 | 51 |
| Gweithwyr Contract | 26 | 44 |
| Contractwyr | 119 | 148 |
| Cyfanswm | 390 | 398 |

## Y Gymuned

Derbyniodd 16 o sefydliadau cymunedol gyfran o £56,760 o gyllid cynllun economaidd-gymdeithasol Magnox yn 2016/17.



Aelodau Clwb Bowlio y Friog gyda'u hysgraffiniwr newydd
Derbyniwyd £610 o gyllid



Plant o Gylch Meithrin Y Bala gyda'u hoffer chwarae a'u hesgidiau glaw newydd
Derbyniwyd £384 o gyllid



Plant yn creu Geochache ar drip Gwaith maes ymgysylltu ag ysgolion Llwybr Llechi'r Wyddfa
Derbyniwyd £10,000 o gyllid



Aelodau o Glwb Archeoleg Blaenau Ffestiniog yn cloddio yn Nhai Llyn
Derbyniwyd £500 o gylliad



Padlfyrddio ar weithgarwch 'Antur Merched'
Partneriaeth Awyr Agored Gogledd-orllewin Cymru
Derbyniwyd £30,000 o gyllid




Lansio Prosiect Wi-Fi Cymunedol Gwynedd Arloesi yn Aberdaron, gyda Julie James, y Gweinidog Sgiliau
Dyfarnwyd £285,000 o gyllid yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear

I gael rhagor o wybodaeth a'r newyddion diweddaraf o safle Trawsfynydd, ewch i:

https://magnoxsites.com
https://twitter.com/magnoxsites
https://www.linkedin.com/company/magnox
https://www.flickr.com/photos/magnoxsites